Amddiffyn ein pensiynau i ddiogelu addysg

I bob athro ac athrawes, darlithydd ac arweinydd, addysgu ein myfyrwyr yw'r agwedd bwysicaf o'n bywyd gwaith.

A dyma yw'r rheswm pam fod yr undebau sy'n cynrychioli athrawon, darlithwyr ac arweinwyr yn uno i brotestio yn erbyn cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer pensiynau a fydd yn gwneud inni dalu mwy, gweithio'n hirach a chael llai ar ôl ymddeol.

Gwyddom y bydd y cynlluniau hyn yn golygu **na fyddwn ni mwyach yn cael y graddedigion disgleiriaf a'r rhai gorau i ddod i weithio i'n hysgolion, colegau a phrifysgolion** gan y byddant yn cael swyddi sy'n talu'n well mewn mannau eraill. Mae graddedigion eisoes yn wynebu dyledion anferth fel myfyrwyr, ac felly ni fyddant yn gallu fforddio cyfraniadau pension o bron i 10%.

Myfyrwyr fydd y rhai fydd yn dioddef o ddiffyg doniau newydd.

Gwyddom y bydd y cynlluniau hyn yn golygu y bydd **athrawon, darlithwyr, prifathrawon a rheolwyr yn ystyried gadael eu swyddi** gan eu bod eisoes wedi cael toriad yng ngwerth eu pensiynau yn sgil newid mewn mynegeio pensiynau, ac mae cynlluniau pellach i newid y ffordd y caiff pensiynau eu cyfrifo, gan leihau pensiynau ymhellach fyth.

Myfyrwyr fydd y rhai fydd yn dioddef o golli staff profiadol.

Gwyddom hefyd y bydd cynyddu oed ymddeol i 68 a hyd yn oed yn hŷn yn golygu y bydd y rhai a fydd yn aros yn y proffesiwn yn rhy flinedig yn gorfforol ac yn emosiynol i ddal i fyny gyda disgyblion a fydd yn ddigon ifanc i fod yn wyrion iddynt.

Myfyrwyr fydd y rhai fydd yn dioddef.

Deallwn fod ein hymgyrch yn dod ar adeg pan mae pawb yn dioddef ergyd i'w pocedi. Ond mae staff ysgolion, colegau a phrifysgolion eisoes wedi cymryd cyfran o doriadau gyda rhewi tâl am ddwy flynedd, diswyddiadau a'r un cynnydd mewn treth ar werth a thanwydd â gweddill y boblogaeth.

Nid yw ein pensiynau'n waddol o aur - £10,000 yw'r cyfartaledd - a byddai cynlluniau'r llywodraeth yn gallu golygu toriad o 30% dros gyfnod ymddeoliad. Mae'n gynllun disynnwyr gan y bydd yn arwain at y llywodraeth yn gorfod talu mewn budd-daliadau i bensiynwyr. Cynllun tymor byr ydyw i godi arian i lenwi'r bwlch a adawyd gan y ddyled yng nghyllideb y wlad, gan fod y cynllun pensiwn wedi cael ei brofi i fod yn iach.

Mae staff ysgolion, colegau a phrifysgolion yn mynd yn fwyfwy rhwystredig ar ôl misoedd o drafodaethau gyda gweinidogion y llywodraeth, deiseb i Stryd Downing ac anfon miloedd o lythyrau a negeseuon e-bost i Aelodau Seneddol, gyda'r llywodraeth yn gwrthod ildio ar ei chynlluniau i wneud inni dalu mwy, gweithio'n hirach a chael llai ar ôl ymddeol. Credwn fod angen protestiadau cryfach.

Mae addysg hirdymor ein myfyrwyr yn gwbl hanfodol. Gofynnwn am eich cefnogaeth i'n hymgyrch dros y misoedd i ddod.

Brian Lightman,	**Mary Bousted,**	**Russell Hobby,**	**Christine Blower,**	**Sally Hunt,**
ASCL	ATL	NAHT	NUT	UCU